# Myfyrdodau Byrion ar Ferched yr Hen Destament: Rebeca, Lea a Rachel

## Rebeca
## Genesis 24: 1, 4, 10-11, 17; 27:1-2, 5, 42, 43 a 45.

Hoffwn droi'r stori'n ddrama ag iddi dair act:

*Act 1*: Min nos, merch ifanc hardd, stên wag ar ei hysgwydd yn cerdded yr hen lwybr i'r ffynnon. Nid ar ei phen ei hun mohoni. Gwragedd eraill, hen ac ifanc yn siarad a chwerthin, yn hel newyddion y dydd. Mae dieithryn wrth y ffynnon, deg o gamelod ganddo. Wrth i hon lenwi'r stên, brysiodd y dieithryn ati a holodd am ddŵr. Fe gafodd, a chododd ddŵr i'w gamelod hefyd. 'Roedd gwas Abraham wrth ei fodd; 'roedd Duw wedi ateb ei weddi. Dyma'r arwydd iddo. Darpar wraig Isaac fyddai'r un i dynnu dŵr o'r ffynnon, a chynnig dŵr iddo ac i'r camelod hefyd. Rebeca oedd ei henw. (Llun: *Rebecca at the Well* gan Giovanni Antonio Pellegrini 1675 – 1741)

*Act 2*: Rebeca yn hydref ei bywyd. Wedi hir aros, ganed efeilliaid, Jacob ac Esau. Esau, y cyntaf-anedig, cryf ac eofn, ffefryn Isaac; Jacob, tawel, wastad wrth ochr ei fam. A haul y dydd yn prysur fachlud, galwodd Isaac am Esau - 'roedd i dderbyn bendith ei dad. Aeth Rebeca ati i gynllwynio gweithred ddofn a thywyll. Rhaid i Jacob nid Esau derbyn bendith Isaac cyn iddo farw. Gyda chymysgedd o gawl carw, croen gafr, dychymyg a phenderfyniad diwyro ei fam, cipiodd Jacob fendith ei dad oddi ar Esau. Pan ddychwelodd Esau a deall ei fod wedi ei dwyllo penderfynodd ladd Jacob. Clywodd Rebeca ei fygythion. 'Roedd y twyll a'r cynllwynio yn mynd i gostio'n ddrud iddi. 'Roedd raid iddi ollwng gafael ar yr un a garai yn fwy na dim. Galwodd am Jacob a'i rybuddio; mewn dychryn a braw ffarweliodd â'i fam.

*Act 3*: Aeth nifer o flynyddoedd heibio ers i Jacob adael. Rebeca yn byw gyda mab na allodd anghofio rhan ei fam yn ei dwyllo allan o'i etifeddiaeth; a gŵr a gollodd, yn naturiol ddigon, dogn o'r ffydd oedd ganddo ynddi a'r cariad oedd ganddo tuag ati. Ni welodd Rebeca ei mab Jacob byth eto.

*Dyro, O Dduw, bod ofn canlyniadau pechod yn fy nghadw rhag troseddu yn dy erbyn di. Amen*

## Lea a Rachel
## Genesis 29:16-18 a 49:29-33

'Roedd gan Laban ddwy ferch; Lea yr hynaf a Rachel yr ieuengaf. "*Yr oedd llygaid Lea yn bŵl, ond yr oedd Rachel yn osgeiddig a phrydferth*" (Genesis 29:17). Ydy! Mae Storïwr Genesis yn feistr ar ei grefft! Ychydig eiriau cynnil a chraff yn dweud cyfrolau! Meddyliwch am y gair bach 'pŵl', "*Yr oedd llygaid Lea yn bŵl*". Llygaid heb loywder. Digon plaen oedd Lea. Ond arhoswch am eiliad, diddorol a blasus weithiau yw cymharu cyfieithiadau gwahanol o ambell adnod neu air. Meddyliwch am ddau gyfieithiad Saesneg, "*Leah had delicate eyes"* a "*Leah was tender-eyed"*. Ddim mor blaen felly! Ond, druan, 'roedd hi'n blaen o'i chymharu â Rachel "*osgeiddig a phrydferth***"**. (Llun: *Rachel and Leah* gan Dante Gabriel Rossetti 1828-1882)

Cafodd y twyllwr ei dwyllo! Oherwydd cyfrwystra Laban, bu raid i Jacob briodi Lea a Rachel. Mae'r storïwr yn awgrymu fod Lea dros

ei phen a'i chlustiau mewn cariad â Jacob, ond hoffodd Jacob Rachel yn fwy na Lea. Anodd deall beth welodd yr un o'r ddwy yn Jacob! Rhaid bod llond trol o *charm* gan yr hen sgamiwr! Bu Lea'n wraig ffyddlon a ffrwythlon i Jacob, ganwyd iddi chwe mab a merch, ond nid digon oedd hynny i ennill calon Jacob. Rachel oedd y ffefryn o hyd. Wedi hir aros ganed mab i Rachel, Joseff. Wrth iddi esgor ar ei ail fab, Benjamin, bu farw Rachel. Claddwyd hi ym Methlehem.

Mae tro rhyfedd ac annisgwyl yng nghwt y stori. Blynyddoedd wedyn, a Jacob yn alltud yn yr Aifft, a'i fywyd yn dirwyn i ben; rhoes orchymyn i'w feibion i'w gladdu, nid wrth ochr Rachel ym Methlehem ond yn ogof Machpela, lle claddwyd Abraham a Sara, Isaac a Rebeca ... a Lea. Yn y diwedd, gorwedd wrth ochr y ferch a'r llygaid pŵl oedd dewis Jacob.

*Yn symudiad y pethau a ysgydwir, cymorth fi, O Dduw, i adnabod y pethau nid ysgydwir. Amen*